Ymchwil y Gronfa Loteri Fawr
Rhifyn 51

# Pawb a'i Le
# Crynodeb gwerthuso'r flwyddyn gyntaf

## Cymru



**Crynodeb gwerthuso rhaglen Pawb a'i Le**

**Côd stoc: BIG-PPEVAL52**
**ISSN 1744-4756 (Print)**
**ISSN 1744-4764 (Ar-lein)**
**Ffotograffiaeth:** Kevin Clifford, Alex Skibinski, Betina Skovbro, Kevin Fitzmaurice Brown
**Ysgrifennwyd gan:** Alison Pollard

**Copïau pellach ar gael o:**
**E-bost** ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
**Ffôn** 01686 611 700
**Ffôn testun** 01686 610 205

**Ein gwefan** www.cronfaloterifawr.org.uk

**Hygyrchedd**
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

**Ein hegwyddorion cydraddoldeb**
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad. Ymwelwch â'n gwefan am ragor o wybodaeth.

**Rydym yn poeni am yr amgylchedd**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

**Ein gweledigaeth**
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

**Ein Gwerthoedd**
Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, a hynny fel dosbarthwr grantiau a chyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu ymdriniaeth gynhwysol tuag at sicrhau bod ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

℗ Cronfa Loteri Fawr, Ebrill 2009

Yn dyfarnu arian
**Y Loteri Genedlaethol**

Awarding funds from
**The National Lottery®**

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canfyddiadau allweddol o flwyddyn gyntaf gwerthusiad rhaglen Pawb a'i Le. Dyma ein dehongliad ni o'r prif ganfyddiadau o'r adroddiad gwerthuso. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn Adran Gwerthuso ac Ymchwil gwefan y Gronfa Loteri Fawr, www.cronfaloterifawr.org

Lansiwyd y rhaglen Pawb a'i Le ym mis Tachwedd 2005 a bydd yn dyfarnu arian hyd at fis Rhagfyr 2010. Mae'r rhaglen yn ariannu prosiectau sy'n gweithio mewn ardal ddaearyddol benodol, yn rhanbarthol ac ar draws Cymru. Mae ganddi gyllideb o £66 miliwn ac mae'n cynnig grantiau o rhwng £5,001 a £1,000,000 am hyd at dair blynedd. Ym mis Ebrill 2009, roedd y rhaglen wedi dyfarnu 198 o grantiau, gwerth cyfanswm o £40,580,372.

Mae'r rhaglen Pawb a'i Le yn cefnogi prosiectau a fydd yn arwain at un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

- cymunedau wedi'u hadfywio
- gwell cysylltiadau cymunedol a
- gwell amgylcheddau lleol, gwasanaethau cymunedol ac adeiladau

Roedd yr holl brosiectau a arolygwyd fel rhan o flwyddyn gyntaf y gwerthusiad wedi bod yn darparu gwasanaethau i gymunedau lleol am lai na blwyddyn. O ganlyniad, mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar ddatblygu prosiectau, adnabod angen, ymdriniaeth wedi'i harwain gan alw Pawb a'i Le ac effaith gynnar y rhaglen. Bydd adroddiadau'r dyfodol yn canolbwyntio ar effaith y rhaglen a'r newidiadau i gymunedau ar draws Cymru yn sgil y rhaglen.

# Canfyddiadau Allweddol

## Mae cymunedau lleol yn elwa o brosiectau

Fe wnaeth fwy na hanner y prosiectau adrodd eu bod yn helpu i wella cymunedau lleol. Mae prosiectau yn adrodd eu bod yn cael effaith bositif ar gysylltiadau cymunedol, bywyd cymdeithasol y gymuned, sgiliau'r bobl leol, iechyd pobl leol ac yn darparu gwasanaethau ychwanegol neu well.

## Ymgeiswyr wedi ymchwilio i anghenion lleol cyn datblygu prosiectau

Mae 90% o ymgeiswyr wedi ymgymryd ag ymchwil i ddeall a dangos yr angen ar gyfer eu prosiectau ac fe wnaeth y 10% sy'n weddill gasglu tystiolaeth o angen gan brosiectau blaenorol y maent wedi'u rheoli.

## Cymunedau lleol yn cefnogi'r prosiectau

Mae prosiectau yn elwa o bobl leol yn gwirfoddoli i gyflwyno gweithgareddau a thrwy fod yn aelodau o grwpiau ymgynghorol.

## Mwyafrif yr ariannu wedi'i ddyrannu i sefydliadau sefydledig sydd â phrofiad o ymgeisio am ariannu

Mae 95% o sefydliadau a dderbyniodd arian wedi bod mewn bodolaeth ers dros dair blynedd.

## Cynaladwyedd yn fater allweddol ar gyfer prosiectau

Ar ôl i ariannu Pawb a'i Le ddod i ben, bwriada 55% o brosiectau ymgeisio am arian ychwanegol a bwriada 34% o brosiectau fod yn hunan gynaliadwy, trwy godi ffioedd am weithgareddau.

# Y Gwerthusiad

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi comisiynu Wavehill Consulting i werthuso'r rhaglen rhwng 2007 a 2011.

Nodau'r gwerthusiad yw:

- gwerthuso llwyddiant y prosiectau wrth adnabod a mynd i'r afael ag anghenion y buddiolwyr arfaethedig, gan gynnwys y rhai mwyaf anghenus neu'r rhai anodd eu cyrraedd
- asesu graddau cyswllt y gymuned leol wrth gynllunio a rhedeg prosiectau ac effeithiau'r cyswllt hwn mewn perthynas â bodloni nodau'r rhaglen
- gwerthuso effeithlonrwydd prosiectau wrth gyflawni eu canlyniadau diffiniedig eu hunain a'u ffit gyda strategaethau a blaenoriaethau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol
- dadansoddi canlyniadau o unrhyw brosiectau arloesol sy'n derbyn grantiau o dros £500,000
- gwerthuso effeithlonrwydd ymdriniaeth benodol wedi'i harwain gan alw yng Nghymru ac, yn benodol, i ba raddau y mae mentrau wedi'u cynllunio'n lleol ac wedi'u gyrru gan y gymuned yn helpu i gyflawni canlyniadau rhaglen ar lefel uchel.

Mae'r fethodoleg werthuso yn cynnwys adolygu data monitro sydd gan y Gronfa Loteri Fawr, cyfweliadau gyda staff y Gronfa Loteri Fawr, cyfweliadau ffôn gyda phrosiectau ac ymweliadau astudiaeth achos â phrosiectau.

Mae'r gwaith maes gwerthuso yn cynnwys 30 o werthusiadau trylwyr gyda phrosiectau, 20 o ymweliadau astudiaeth achos unigryw a chyfweliadau ffôn gyda 215 o brosiectau. Bydd Wavehill Consulting hefyd yn dadansoddi data meintiol ynghylch prosiectau, trafodaethau grŵp ffocws a data a gasglwyd mewn holiaduron.

**Gwella lles teuluoedd difreintiedig yn Nhredegar**

Mae'r rhaglen Pawb a'i Le yn cefnogi prosiect 'Feeling Good' Tredegar Development Trust. Mae'r prosiect hwn yn darparu rhaglen o weithgareddau wedi'i chydlynu i alluogi i bobl sy'n byw yn Nhredegar a Glyn Ebwy deimlo'n iachach a dod yn iachach.

Ymhlith gweithgareddau'r prosiect y mae:

- dosbarthiadau ymarfer gwyrdd a garddio yn yr amgylchedd naturiol i wella lles corfforol a meddyliol a chynyddu gwybodaeth ynghylch yr amgylchedd lleol
- gwella dealltwriaeth pobl o sut y gallant atal salwch
- gweithio mewn partneriaeth gydag Age Concern i ddarparu cyfleoedd sy'n galluogi i bobl hŷn gysylltu mewn gweithgaredd corfforol
- darparu cyrsiau coginio cymunedol a chyngor dietegol.

Cyflwynir yr holl weithgareddau mewn modd cyfeillgar a chefnogol ac mewn lleoliad cymunedol.

# Canfyddiadau'r Gwerthusiad

## Adnabod anghenion lleol

Mae adnabod yr angen am brosiect yn elfen gritigol o broses ymgeisio ac asesu Pawb a'i Le. Roedd 90% o'r ymgeiswyr wedi ymgymryd ag ymchwil er mwyn adnabod yr angen ar gyfer eu prosiect. Roedd y deg y cant sy'n weddill o'r ymgeiswyr wedi casglu tystiolaeth o angen ar sail y wybodaeth a oedd ar gael o brosiectau yr oeddynt wedi'u rheoli'n flaenorol.

Defnyddiodd ymgeiswyr amrywiaeth o ddulliau i ymchwilio i'r angen am brosiectau. Roedd math yr ymgynghoriad yr ymgymerwyd ag ef gan ymgeiswyr yn dibynnu ar y grwpiau buddiolwyr targed. Ymhlith y dulliau a ddefnyddiwyd oedd cyfarfodydd ymgynghorol gyda sefydliadau partner a grwpiau budd-ddeiliaid allweddol, holiaduron, cyfarfodydd ymgynghori cymunedol.

## Buddion cynnwys cymunedau lleol mewn prosiectau

Fe wnaeth prosiectau adnabod tri budd mawr o gynnwys cymunedau lleol wrth reoli a chyflwyno'r prosiectau:

- Prosiectau yn gallu dysgu ynghylch anghenion newidiol cymunedau lleol a sicrhau bod gweithgareddau yn parhau yn briodol ac yn berthnasol
- Prosiectau yn gallu cynhyrchu a chynnal diddordeb a chyfranogiad lleol yng ngweithgareddau'r prosiect
- Rhagwelir y bydd gweithio gyda gwirfoddolwyr lleol yn cyfrannu at gynaladwyedd prosiectau.

Bydd cyfnodau diweddarach y gwerthusiad yn adolygu buddion cynnwys cymunedau lleol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

## Effaith gynnar prosiectau

Er bod mwyafrif y prosiectau yn parhau i fod yn nyddiau cynnar cyflwyno gweithgareddau, maent yn dechrau darparu ystod o fuddion i gymunedau lleol. Adroddodd mwy na hanner eu bod wedi cynhyrchu un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

- gwella canfyddiadau pobl o'r gymuned
- darparu cyfleusterau ychwanegol neu well i'r gymuned
- gwella cysylltiadau cymunedol
- gwella bywyd cymdeithasol y gymuned
- gwella sgiliau aelodau'r gymuned
- gwella iechyd a lles aelodau'r gymuned.

**"Mae'n hanfodol i nodau ac amcanion y prosiect Community Connection bod ein gwaith wedi'i arwain gan y gymuned ac yn berchen iddi. Mae tri aelod o staff cyflogedig yn cynnig cyngor, cefnogaeth, hyfforddiant a sgiliau ymarferol ond mae ein rolau fel hwyluswyr yn hytrach nac arweinwyr."**

Rheolwr Prosiect Community Connections

## Gweithio gyda phobl ifanc â nam ar eu golwg yn Sir Benfro

Derbyniodd y Cyngor Astudiaethau Maes grant o £95,000 ar gyfer y prosiect Addysg Awyr Agored ar gyfer Pobl Ifanc â Nam ar eu Golwg. Bydd y prosiect yn cynnwys naw cwrs yn eu canolfan yn Sir Benfro a chynhelir tri chwrs o'u canolfan ym Metws-y-Coed. Mae'r cyrsiau preswyl yn cynnig cyfleoedd i bobl gydag anableddau gweledol i ddysgu am yr amgylchedd naturiol a'i fwynhau. Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth gyda Action for Blind People sy'n adnabod pobl ifanc a fyddai'n elwa o gyfranogi yn y prosiect. Mae Action for Blind People hefyd yn helpu gweithwyr prosiect i asesu lefelau hyder pobl ifanc, anabledd a'r lefelau gofal a allai fod yn ofynnol arnynt.

Mae gweithgareddau'n cael eu teilwra i anghenion penodol, lefelau hyder a diddordebau'r bobl ifanc. Mae cyrsiau yn cynnwys astudio pyllau glan môr, sefyll mewn tonnau a chael eu hannog i deimlo symudiad y môr; teithiau mewn cychod pŵer, dal anifeiliaid y môr ac edrych ar yr amgylchedd naturiol gan ddefnyddio offer chwyddiad uchel. Mae'r grant tair blynedd yn cael ei ddefnyddio i brynu cyfarpar arbenigol, ac i dalu am gyflogau staff a chostau rhedeg y gweithgareddau.

### Buddion, risgiau a chost ariannu wedi'i arwain gan alw

Mae'r rhaglen Pawb a'i Le yn defnyddio ymdriniaeth wedi'i harwain gan alw tuag at ariannu prosiectau. Mae hyn yn golygu bod gan y rhaglen ganlyniadau eang, cymunedol ac anogir ymgeiswyr i ymgeisio am arian er mwyn mynd i'r afael ag anghenion lleol y maent wedi'u hadnabod, yn hytrach na'r Gronfa Loteri Fawr yn nodi canlyniadau penodol iawn y mae gofyn i brosiectau eu cyflawni.

Mae Pawb a'i Le wedi cefnogi ystod eang iawn o brosiectau gydag amrywiaeth o ganlyniadau. Er enghraifft, mae 79 o wahanol ganlyniadau a dangosyddion perfformio wedi'u hadnabod ar gyfer y 15 gwerthusiad trylwyr o brosiectau sydd wedi'u hadolygu'n fanwl fel rhan o waith maes gwerthuso'r flwyddyn gyntaf.

Mae ystod eang y canlyniadau a gyflwynwyd gan brosiectau hefyd yn golygu y bydd hi'n fwy heriol asesu effaith y rhaglen hon, na rhaglenni strategol sy'n canolbwyntio ar thema neu ganlyniad penodol.

### Sefydliadau sy'n elwa o arian Pawb a'i Le

Mae mwyafrif ariannu Pawb a'i Le wedi'i ddyfarnu i sefydliadau profiadol a sefydledig. Mae 95 y cant o brosiectau sydd wedi derbyn arian wedi bod mewn bodolaeth am fwy na thair blynedd. Golyga hyn bod y rhaglen yn cefnogi sefydliadau sydd â hanes sefydledig o gyflwyno prosiectau llwyddiannus yn bennaf. Mae'r sefydliadau hyn yn debygol o fod yn gyfarwydd gydag anghenion y grwpiau y maent yn eu targedu. Mae hyn yn golygu hefyd mai ychydig iawn o ariannu Pawb a'i Le sy'n mynd i sefydliadau newydd.

### Asesu ceisiadau

Mae ymdriniaeth wedi'i harwain gan alw'r rhaglen yn golygu bod ystod eang iawn o brosiectau yn gymwys i dderbyn arian. O ganlyniad, mae swm yr arian y ceisiwyd amdano gan y ceisiadau a gyflwynwyd yn llawer yn uwch na'r arian sydd ar gael.

Mae gofyn i'r holl ymgeiswyr lanw ffurflen gynnig amlinellol sy'n darparu manylion sylfaenol ynghylch eu prosiect, cyn iddynt gyflwyno cais llawn. Diben y ffurflen gynnig amlinellol yw arbed amser i ymgeiswyr wrth lanw ffurflen gais lawn os nad yw eu prosiect yn gymwys ar gyfer ariannu. Gwahoddwyd 30% o'r holl gynigion

> "Mae ein grŵp llywio yn cynnwys aelodau a chynrychiolwyr o'r gymuned leol"
>
> Deiliad grant Pawb a'i Le

amlinellol a gyflwynwyd rhwng Awst 2007 ac Awst 2008 i gyflwyno cais llawn. Dengys hyn bod yr angen i reoli nifer y ceisiadau llawn a gyflwynir wedi'i gydnabod gan y Gronfa Loteri Fawr a bod y weithdrefn gynnig amlinellol yn rhan werthfawr o broses asesu Pawb a'i Le.

Golyga hyn bod swm sylweddol o amser staff y Gronfa Loteri Fawr yn cael ei dreulio ar asesu prosiectau nad ydynt yn cael eu hariannu yn y pendraw. Mae'n bwysig bod y Gronfa Loteri Fawr yn cwblhau asesiad cadarn o'r holl geisiadau sy'n cyrraedd y cyfnod asesu terfynol, er mwyn sicrhau bod yr holl geisiadau'n derbyn asesiad cynhwysfawr, teg a chyfartal. Dylai'r amser a gymerir i asesu ceisiadau fod mor fyr â phosibl, ond rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen am broses asesu teg a chadarn.

**Ymestyn at oedolion ar eu pennau eu hunain yn Nhŷ Fforest**

Mae'r prosiect Tŷ Forest Reach Out yn rhedeg tŷ cymunedol sy'n canolbwyntio ar roi grym a chysylltu â phobl sydd ar eu pennau eu hunain sy'n byw yn yr ardal leol. Mae'r tŷ yn cynnig cyfle i oedolion gynllunio a chyfranogi mewn dosbarthiadau addysg a chyrsiau hyfforddi sgiliau i oedolion. Mae hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr lleol i drefnu lleoliadau gwaith gwirfoddol. Mae'r gweithgareddau yn mynd i'r afael â lefelau sgiliau isel, arwahanu cymdeithasol a hunan-barch isel llawer o bobl ddifreintiedig. Mae'r prosiect hefyd yn anelu at ddatblygu cyfleoedd a gweithgareddau newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ac i gynyddu eu hymglymiad a'u llais o fewn y gymuned.

Mae grant tair blynedd gan Bawb a'i Le yn ariannu cyflogau Gweithiwr Datblygu Allgymorth Oedolion rhan amser newydd, Gweithiwr Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc rhan amser newydd, a Gweithiwr Gweinyddol rhan amser newydd a Goruchwylydd rhan amser newydd. Bydd hefyd yn ariannu costau rhedeg, deunyddiau a gorbenion sefydliadol.

## Safbwyntiau ymgeiswyr ar y broses ymgeisio

Adroddodd 67% o ymgeiswyr bod eu profiad cyffredinol o'r broses ymgeisio yn dda iawn neu'n dda. Dim ond pump y cant o ymgeiswyr a oedd â safbwynt negyddol o'r broses ymgeisio.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymo i adolygu a darparu adborth ynghylch ffurflenni cynnig amlinellol o fewn 30 diwrnod i dderbyn y ffurflen. Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn ymrwymo i asesu ffurflen gais lawn a hysbysu'r ymgeisydd ynghylch y penderfyniad o fewn chwe mis i dderbyn y cais. Er bod yr holl geisiadau yn cael eu hasesu o fewn yr amserlenni a gyhoeddir, awgrymodd nifer o ymgeiswyr y gellid gwella ar y broses asesu wrth i'r Gronfa Loteri Fawr ostwng yr amser a gymerir i adolygu ceisiadau. Roedd gan 47% o'r ymatebwyr sylwadau positif ar gyflymder y broses ymgeisio a theimlodd 28% nad oedd yr amser a gymerwyd gan y Gronfa Loteri Fawr i adolygu ceisiadau yn foddhaol.

Y rheswm dros gyfaint mawr y ceisiadau ariannu yw'r ffaith bod Pawb a'i Le yn rhaglen wedi'i harwain gan alw, lle fo ystod eang o brosiectau yn gymwys i dderbyn arian. Gan fod angen i'r holl geisiadau dderbyn asesiadau cynhwysfawr a theg, mae'r amserlen asesu yn aml yn hwy ar gyfer Pawb a'i Le, nag ar gyfer rhaglenni ariannu sy'n canolbwyntio ar faes penodol lle fo lefel y galw am ariannu yn gliriach.

## Cynaladwyedd gweithgareddau'r prosiect

Mae Pawb a'i Le yn darparu grantiau mawr i brosiectau dros gyfnod hir o'i gymharu â mwyafrif cyllidwyr sy'n cefnogi prosiectau yng Nghymru. Mae prosiectau wedi croesawu maint y grantiau a hyd yr ariannu. Mae ariannu dros dair blynedd yn galluogi i lawer o brosiectau recriwtio staff, cynllunio eu gwaith a chyllidebu dros gyfnod o amser hwy nag sy'n bosibl gyda rhaglenni ariannu blynyddol.

Bwriada 55% o ymgeiswyr ymgeisio am arian ychwanegol ar gyfer eu prosiect ac mae 34% yn bwriadu i'w prosiect fod yn hunan gynaliadwy'n ariannol trwy godi ffioedd am weithgareddau ar ôl i'w grant Pawb a'i Le ddod i ben. Mae'r mater cynaladwyedd yn bryder allweddol ar gyfer ymgeiswyr.

# Y Camau Nesaf

Bydd y gwerthuswyr yn parhau i ymgymryd â gwaith maes ac ymweld â phrosiectau yn 2009.

Cam nesaf y gwerthusiad fydd:

- Datblygu set o ganlyniadau a dangosyddion craidd a fydd yn galluogi i werthuswyr asesu effaith gyfunol y rhaglen Pawb a'i Le.
- Ymgymryd ag ymchwil trwyadl gyda phobl sy'n cyfranogi mewn prosiectau er mwyn adolygu buddion prosiectau.
- Ymchwilio i'r rhesymau pam bod rhai ardaloedd yng Nghymru yn fwy llwyddiannus nac eraill wrth gael mynediad at arian Pawb a'i Le.
- Archwilio buddion posibl y broses ymgeisio ar ymgeiswyr a phrosiectau.

# Gwybodaeth bellach

Er mwyn dadlwytho copi o'r adroddiad gwerthuso llawn ewch i: www.cronfaloterifawr.org.uk